

LLINELL AMSER

Cymeriadau a Digwyddiadau yng Nghymru



Dyma linell amser yn cynnwys rhai o gymeriadau a digwyddiadau Cymru o gyfnod Caradog ac ymosodiad y Rhufeiniaid ar y Brythoniaid at yr Ail Ryfel Byd.



Caradog

yn brwydro
yn erbyn
ymosodiad y
Rhufeiniaid
ar y
Brythoniaid.



Cynhaliwyd gyfarfod
yng Nghastell
Aberteifi a adnabyddir
hefyd fel yr Eisteddfod
gyntaf eriod.

43OC

Tua 462
– 515 OC

1176

1188

Ganwyd **Dewi Sant** yn ystod y cyfnod hwn er nad ydym yn gwybod yn union pa flwyddyn. Yn y flwyddyn 550, sefydlodd fynachlog yn Nhŷ Ddewi, Sir Benfro ar safle yr Eglwys Gadeiriol yno heddiw. A Fawrth 1af 589OC, bu fawr Dewi Sant dros ei 100 mlwydd oed yn ôl yr hanes.

Teithiodd **Gerallt Gymro** (1146 - 1223) benbaladr Cymru gydag Archesgob Caergrawnt gan ysgrifennu am eu taith.

Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn ein Llyw Olaf).

Mae Llywelyn yn cael ei adnabod fel arweinydd olaf Cymru unedig. Yn 1255, ar gais nifer o arweinwyr blaenllaw Cymru, daeth Llywelyn yn Dywysog ar Gymru. Lladdwyd ef gan filwyr Edward I ar 11eg o Ragfyr 1282 yng Nghilmeri lle saif cofeb iddo heddiw.



1223

Rhoddwyr gorchymyn gan **Edward 1** i adeiladu cestyll yng Nghymru. Rhwng 1277 – 1295 adeiladwyd neu atgyweiriwyd 17 o gestyll. Ceir dros 600 o gestyll yngh Nghymru heddiw. Sawl un ydych chi wedi ymweld â nhw? Sawl castell fedrwch chi enwi?

1283

Mae'r **Pla Mawr** yn dechrau lledu drwy Gymru. O fewn blwyddyn, bu farw traean o'r boblogaeth.

1349



Ganwyd **Owain Glyndŵr**. Ar 16ed o Fedi 1400, dechreuodd gwrthryfel yn erbyn Harri'r IV a'i ymgyrch ar gyfer Cymru annibynnol. Yn 1404 cafodd ei gyhoeddi'n Dywysog Cymru a sefydlodd senedd ym Machynlleth. Diflannodd yn 1415, a does neb yn gwybod tan y dydd heddiw beth ddigwyddodd iddo.



Trwy Deddf Uno **Harri'v VIII** yn y flwyddyn hon, mae Cymru yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr.

1359


1485

1536

1588

Daeth **Harri Tudur** yn Frenin Lloegr pan drechodd Rhishart III ym Mrwydr Bosworth yn y flwyddyn hon. Dyma fyddai dechrau dechrau teyrnasiad y Tuduriaid am y 118 o flynyddoedd. Fedrwch chi enwi brenin neu frenhines arall o'r cyfnod hwn?

Argraffwyd cyfieithiad Cymraeg **William Morgan** o'r Beibl ar gais Brenhines Elizabeth I. Credir bod hyn wedi achub yr iaith Gymraeg.



Dyma ddechrau'r **Chwyldro Diwydiannol** a tyfodd Cymru i fod yn un o gynhyrchwyr mwyar copr a hearn y byd.

1750

Sefydlwyd 'Gorsedd y Beirdd' cyntaf gan **Iolo Morgannwg** (1747-1826), sef cyfarfod o feirdd Cymraeg yn Primrose Hill, Llundain. Llwyddodd i gynnwys Gorsedd y Beirdd fel rhan o'r eisteddfod yng Nghaerfyrddin yn 1819. Mae'n rhan annatod o'r eisteddfod ers hynny.

1792

Cyhoeddwyd y cyfrifiad swyddogol cyntaf yn y flwyddyn hon. Pobogaeth Cymru oedd 587,000. Gyda phoblogaeth o 7,705, Merthyr Tudful oedd y dref fwyaf. Fedrwch chi ddyfalu pam?


1801

1839



Terfysgoedd Merched Beca. Ar 1af o Fai yn y flwyddyn hon, ymosodwyd ar y tolldy yn Efailwen, Sir Gaerfyrddin gan griw mawr o ddynion wedi eu gwisgo mewn dillad merched a'u hwynebau wedi duo. Ffermwyr blin oedd y rhain yn protestio am y tollau a godwyd er mwyn teithio ar hyd y ffyrdd. Bu sawl achos tebyg ar hyd a lled De-orllewin Cymru tan 1843 gan gynnwys rhoi toll dai ar dân tan y diddymwyd y tollau yn 1843


Cyhoeddwyd adroddiad tyngedfennol am addysg yng Nghymru a adnabyddir heddiw fel 'Brad y Llyfrau Gleision.' O ganlyniad i'r adroddiad fe gyflwynwyd arfer greulon y '**Welsh Not**' yn ysgolion ledled Cymru. Cosb oedd y 'Welsh Not' i blentyn a siaradai Gymraeg gyda'i ffrindiau yn yr ysgol. Gorfodwyd y plentyn i wisgo bwrdd pren o gwmpas ei wddf a'r llythrennau W.N. arno. Byddai'r plentyn yn gallu trosglwyddo'r bwrdd i blentyn arall byddai'n siarad Cymraeg.



1847

1854


1856



Gweithiodd **Betsi Cadwaladr** gyda Florence Nightingale yn gofalu am filwyr yn Rhyfel y Crimea. Yn groes i ddymuniad Florence Nightingale, mynnodd Betsi fynd yn nes at yr ymladd er mwyn helpu'r milwyr oedd wedi eu hanafu waethaf ar faes y gad yn Balaclava.

Cyfansoddwyd 'Hen Wlad fy Nhadau' gan **Evan James** a **James James**, y geiriau gan y tad, Evan a'r gerddoriaeth gan ei fab, James. Dyma ein hanthem genedlaethol heddiw wrth gwrs. Ydych chi'n gwybod y geiriau'n dda ac yn deal eu hystyr?

Ar 28ain o Fai yn y flwyddyn hon, hwyliodd llong y '**Mimosa**' o Lewpwl ar ei mordaith hir a pheryglus i Batagonia gan gario 160 o Gymry yn chwilio am fywyd gwell. Cyrhaeddodd y llong Borth Madryn ar 28ain o Orffennaf ac ar ôl cerdded am bedwar diwrnod cyn cyrraedd yr afon, sefydlwyd cymuned Gymraeg ym Mhatagonia sydd dal yno heddiw.




1865


1900

1916

Daeth 3,000 o weithwyr llechi allan ar streic o **Chwarel Lechi Penrhyn** tan 1903 gan newid gwedd Bethesda a'r ardal am byth.

Daeth **David Lloyd George** (1863-1945) yn Brif Weinidog. Ef oedd y Cymro cyntaf a'r unig un a allai siarad Cymraeg ar gyfer y swydd hon.





Enillodd y bardd Ellis Humphrey Evans neu **Hedd Wyn** (1887-1917) fel ag yr adnabyddir, y gadair yn eisteddfod Penbedw. Cafodd ei ladd yn Pilkem Ridge yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a gorchuddiwyd y gadair â lliain du.

1917

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru gan **Syr Ifan ab Owen Edwards**, mab O M Edwards, fel mudiad Cymraeg ei iaith ar gyfer ieuenctid Cymru. Agorwyd Gwersyll Llangrannog yn 1932 a chynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929.

1922

1939

Ar 1af o Fedi ymosododd byddin Yr Almaen ar Gwlad Pŵyl ac fe gyhoeddwyd yr **Ail Ryfel Byd**. Ni ddaeth y rhyfel i ben tan 2il o Fedi 1945 pan arwyddodd Siapan ddogfen yn cadarnhau eu bod yn ildio. Yn ystod chwe blynedd o ryfel cafodd rhwng 50 – 70 miliwn eu lladd ledled y byd. Daeth tua 110,000 o ifaciwîs o Loegr i Gymru i ddianc rhag y bomio mewn dinasoedd mawr.

Ar 19eg o Chwefror yn y flwyddyn hon, dechreuodd y **Blitz yn Abertawe**, pan fomiwyd y dref gan Luftwaffe Almaeneg am tri diwrnod cyfan.

1941

Sefydlwyd Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG / NHS) gan **Aneurin Bevan** (1897-1960), pan oedd yn Ysgrifennydd Iechyd Gwladol.



1948

Penderfynodd aelodau o Gyngor Dinas Lerpwl foddi **Cwm Tryweryn** ger Y Bala yng Ngogledd Cymru er mwyn darparu dŵr i drigolion Lerpwl a Chilgwri (The Wirral). Serch protestiadau ffyrnig llanwyd yr argae â dŵr yn 1965. Collodd 67 o drigolion y cwm eu cartrefi yn ogystal ag ysgol a chapel. Yn 2005, ymddiheurodd Cynor Dinas Lerpwl yn swyddogol am yr hyn oedd wedi digwydd 40 mlynedd cyn hynny.

1953

Ganwyd **Laura Ashley** yn Dowlais, Sir Forgannwg. Gyda'i gŵr, Bernard Ashley, sefydlodd gwmni tecstiliau gan agor ei siop gyntaf yn Llundain yn y flwyddyn 1967. Erbyn 1985, roedd gan y cwmni 180 o siopau.



1955

Daeth Caerdydd yn **brif ddinas** Cymru.

1955

O dan arweiniad Arthur Scargill, Llywydd Undeb y Glöwyr, daeth hanner 187,000 o löwyr Prydain allan ar **streic**. Bu'n flwyddyn o galedi i'r glöwyr a'u teuluoedd tan ddiwedd y streic ar 3ydd o Fawrth 1985.



1984-85

1999

Sefydlwyd y **Cynulliad yng Nghymru** yn dilyn refferendwm ar ddatganoli.

